---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 19 Ionawr 2021**

**Presennol:** Cyng. Sharon Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**1.** **Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.

**2.** **Datganiad o ddiddordeb: - dim**

**Cofnodion cyfarfod 17 Tachwedd 2020 a 14 Rhagfyr 2020**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Einir Thomas.)

**4.** **Materion yn codi o'r cofnodion:**

4.1 Cae Chwarae;- Roedd y clerc i ddarganfod pryd roedd Kenton Jones Ltd yn debygol o osod y 'tŷ bach' a'r fainc yn yr ardal chwarae.
Cytunwyd y byddai'r clerc yn gwneud cais am grant ar gyfer gosod siglen fasged gan ddefnyddio'r dyfynbris o £3,830 a dderbyniwyd gan MacVenture Playground Ltd.

4.2 Llochesi Fws:- Cytunwyd y dylid cynnwys asesiad risg ar y ffurflenni cynnal a chadw a gynhyrchwyd gan y clerc.

4.3 Wefan – cytunwyd y byddai datganiad hygyrchedd yn cael ei ymgorffori pan fyddai'r wefan yn cael ei huwchraddio. Yn y cyfamser roedd y clerc yn cadw'r wefan yn gyfredol.
Cytunwyd y byddai'r clerc yn cynhyrchu tudalen Facebook newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

**5.** **Penderfyniadau Cynllunio:** Dim

5.1 **VAR/2020/69 Gwaelod Bach, Caergeiliog** – caniatâd.

5.2 **FPL/2020/190 Fron Deg, Caergeiliog** – caniatâd.

**6.** **Ceisiadau Cynllunio**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

6.1 **FPL/2020/240 Penrhyn, Ffordd Minffordd Road, Caergeiliog**
Cais llawn ar gyfer cadw a chwblhau bloc stablau ynghyd ag ail leoli a defnydd preswyl o'r garafán statig bresennol ar gyfer cyfnod dros dro o 3 blynedd – dim sylwadau

**7. Materion Ariannol**
Cyflwyno a chadarnhau'r adroddiad ariannol am y cyfnod rhwng 1.11.2020 a 31.12. 2020 ynghyd â rhagolwg o'r gwariant hyd at Fawrth 2021.

Cyfrif Cyfredol £ 22,717.42, Cyfrif Cadw £3,938.67

7.1 Cylch archwilio 3 blynedd - Roedd y clerc wedi cael gwybod y byddai Llanfair Yn Neubwll yn destun archwiliad llawn yn 2020/21 - byddai hyn yn cynnwys profi trafodion yn fanwl.

**8. Praesept 2021/22**
Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o'r cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2021, y gwariant a ragwelir ar gyfer 2021/22 a'r cronfeydd wrth gefn disgwyliedig ar 31 Mawrth 2021 a chytunwyd i ofyn am praesept o £17,000 ar gyfer 2021/22.

**9. Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Rhagfyr a Ionawr | £487.22 | Swyddfa Archwilio Cymru | £212.15 |

Cytunwyd i dalu y rhain
Roedd y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â bancio ar-lein, sut y byddai hyn yn gweithio, pa fath o 'reolaethau' y gellid eu rhoi mewn lle ac ati.

**10. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

10.1 Ymgynghoriad Strategaeth Cymdeithas sy`n Heneiddio

10.2 Mapio asedau cymunedol

10.3 Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Rhagfyr 2020

10.4 Lansiad Sŵn y Môr / Sŵn y Môr launch

**11. Adroddiadau Cynghorwyr**

11.1 Dywedodd Cyng. Sharon Parry fod y gwaith ar lwybr troed 15 trwy Ysgybor bach heb ei wneud.

11.2 Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gydag CSYM ynghylch mynediad newydd a caravan statig oedd wedi ymddangos wrth Fron Wen ar Ffordd Minffordd.

**12. Cyfarfod Nesaf 16 Chwefror 2021**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….